**Cyflwynwyd yr ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar Gwella mynediad at gymorth i ofalwyr di-dâl**

**This response was submitted to the Health and Social Care Committee consultation on Improving access to support for unpaid carers.**

**UC35 : Ymateb gan: Llais | Response from: Llais**

---

## Ymateb Llais i'r ymchwiliad i wella mynediad at gymorth i ofalwyr di-dâl

## Am Llais

Llais yw'r corff annibynnol sy'n adlewyrchu barn ac yn cynrychioli buddiannau pobl sy'n byw yng Nghymru yn eu gwasanaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) a gofal cymdeithasol.

Rydym yn gweithredu'n lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Rydym yn gweithio gyda phobl a chymunedau ym mhob rhan o Gymru fel y gellir clywed llais pawb, a'i ddefnyddio, i yrru cynllunio, dylunio, datblygu a darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i bawb. Rydym, yn:

- estyn allan i glywed gan bobl yn ein cymunedau lleol drwy raglen barhaus o weithgareddau ymgysylltu. Rydym yn gwneud hyn fel bod pobl yn gwybod ac yn deall am yr hyn a wnawn, ac i gasglu eu barn a'u profiadau o wasanaethau'r GIG a gofal cymdeithasol. Rydym yn gwneud hyn mewn sawl ffordd, wyneb yn wyneb ac yn ddigidol, gan gynnwys ymweld â lleoedd lle mae pobl yn derbyn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

- defnyddio'r hyn a glywn i helpu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i ddeall yn well sut mae'r rhai ohonom a allai fod angen gwasanaethau, ac sy'n eu defnyddio, yn meddwl bod gwasanaethau'n diwallu eu hanghenion, yn y ffordd sydd bwysicaf iddyn nhw. Rydym yn helpu i sicrhau bod y GIG a gwasanaethau gofal cymdeithasol yn cymryd camau i wella pethau lle mae angen hyn.

Mae hyn yn cynnwys gweithio gydag arweinwyr gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol pan maen nhw'n ystyried gwneud newidiadau i'r ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu ac yn cael eu cyflwyno, fel bod pobl a chymunedau yn cael dweud eu dweud o'rdechrau

- darparu gwasanaeth eiriolaeth cwynion sy'n rhad ac am ddim, yn annibynnol ac yn gyfrinachol i helpu pobl i godi eu pryderon am wasanaethau iechyd a chymdeithasol.

### Ymateb Llais i'r ymchwiliad i wella mynediad at gymorth i ofalwyr di-dâl

Rydym wedi bod yn gweithredu yng Nghymru ers 1 Ebrill 2023. Mae ein hymateb yn adlewyrchu'r hyn a glywsom yn uniongyrchol a thrwy eraill, yn enwedig gan bobl:

- sydd wedi ymgysylltu â ni mewn digwyddiadau rhanbarthol a chenedlaethol
- sydd wedi defnyddio ein gwasanaeth eiriolaeth cwynion i godi pryder am eu profiad fel gofalwr
- sydd wedi cymryd rhan yn ein prosiectau gofalwyr di-dâl rhanbarthol ym Mhowys a Chastell-nedd Port Talbot ac Abertawe.

## Cefndir

Mae gofalwyr di-dâl yn darparu gofal i aelodau teulu neu ffrindiau sy'n sâl, yn hŷn neu'n anabl heb dâl.

Mae dros 310,000 o ofalwyr di-dâl ledled Cymru[1]. Mae o leiaf 22,500 ohonyn nhw o dan 25 oed[2].

Mae adroddiad Cyflwr Gofalu 2024 Gofalwyr Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2025, yn rhoi cipolwg ar brofiadau gofalwyr di-dâl ac yn tynnu sylw at yr angen am gamau brys i gael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt.

- Mae bron i dri chwarter (69%) o ofalwyr yn dweud bod angen mwy o gefnogaeth arnyn nhw gyda'u hiechyd a'u lles eu hunain.
- Mae angen mwy o gefnogaeth gan y GIG neu weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar ychydig o dan hanner (49%).
- Roedd bron i ddwy ran o dair (63%) o ofalwyr a oedd yn ceisio cael mynediad at ofal cymdeithasol wedi profi amseroedd aros hir.
- Dywedodd ychydig dros hanner (57%) nad oedd gwasanaethau ar gael pan oedd eu hangen.

---

[1] Cyflwr Gofalu yng Nghymru 2024, Gofalwyr Cymru, Mawrth 2025 Gofalwyr Cymru Cyflwr Gofalu 2024 Effaith gofalu ar iechyd a lles gofalwyr

[2] Cyfrifiad 2021 Cyfrifiad - Swyddfa Ystadegau Gwladol

## Ymateb Llais i'r ymchwiliad i wella mynediad at gymorth i ofalwyr di-dâl

Mae’r siarter ar gyfer gofalwyr di-dâl yn nodi hawliau cyfreithiol gofalwyr di-dâl yng Nghymru o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru 2014.

Yr egwyddorion y mae deddf 2014 yn seiliedig arnynt yw:

- **llais a rheolaeth:** rhoi llais a rheolaeth i bobl dros y canlyniadau y maent am eu cyflawni
- **atal ac ymyrraeth gynnar:** cynyddu gwasanaethau cymorth yn y gymuned i helpu unigolion mor gynnar â phosibl yn y broses
- **lles:** hyrwyddo lles y rhai sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth
- **cyd-gynhyrchu:** annog unigolion i gymryd mwy o ran yn y broses o ddylunio a darparu gwasanaethau

Er bod y Ddeddf yn nodi disgwyliadau clir, mae profiadau gofalwyr yn dangos nad yw'n cael ei chymhwyso'n gyson nac yn effeithiol yn ymarferol.

Mae bwlch clir rhwng dyletswyddau statudol a chyflawni ar lawr gwlad, yn enwedig yn:

- Asesiadau amserol ac ystyrlon
- Mynediad teg at gefnogaeth
- Cydnabod a chynnwys lleisiau gofalwyr.

Mae’r Strategaeth 2025–2026 ar gyfer Cynllun Cyflawni Gofalwyr Di-dâl[3] yn nodi camau i helpu i fodloni gofynion y gyfraith, gan gynnwys codi ymwybyddiaeth, gwella mynediad at gymorth ac asesiadau, parhau i ariannu seibiant a chymorth ariannol, a sicrhau bod gan ofalwyr lais cryfach mewn penderfyniadau polisi.

Mae arwyddion cynnar bod Cynllun Cyflawni 2025–2026 yn dechrau cael effaith, yn enwedig drwy ei waith ariannu ac allgymorth. Ond bydd newidiadau ehangach, hirdymor yn cymryd amser ac ymdrech barhaus.

---

[3] Cynllun cyflawni gofalwyr di-dâl 2025 i 2026, Tîm Polisi Gofalwyr Di-dâl Llywodraeth Cymru Strategaeth ar gyfer gofalwyr di-dâl: cynllun cyflawni 2025 i 2026

## Ymateb Llais i'r ymchwiliad i wella mynediad at gymorth i ofalwyr di-dâl

Gwyddom fod elusennau a sefydliadau cymunedol, a elwir yn aml yn drydydd sector, yn chwarae rhan bwysig iawn wrth helpu gofalwyr di-dâl ledled Cymru.

Un o'r ffyrdd mwyaf y mae'r trydydd sector yn helpu yw trwy gynnal rhaglenni cymorth. Er enghraifft, y Cynllun Seibiannau Byr, sy'n rhoi amser i ffwrdd i ofalwyr trwy wyliau neu weithgareddau, a'r Gronfa Cymorth i Ofalwyr, sydd yn cynnig arian brys ar gyfer pethau fel bwyd, biliau, neu eitemau cartref.

Mae elusennau a grwpiau lleol yn helpu i sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn cyrraedd gofalwyr yn eu cymunedau ac weithiau'n darparu gwasanaethau eu hunain.

Maent hefyd yn darparu gwybodaeth a chyngor, gan helpu gofalwyr i ddeall pa gymorth sydd ar gael a sut i wneud cais amdano.

Mae hyn yn arbennig o ddefnyddiol i ofalwyr nad ydyn nhw efallai'n gwybod ble i ddechrau neu sy'n wynebu heriau ychwanegol; fel gofalwyr ifanc, gofalwyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, neu'r rhai sy'n gofalu am rywun sy'n byw gyda dementia.

Mae elusennau hefyd yn gweithio i godi ymwybyddiaeth. Maen nhw'n creu hyfforddiant ac ymgyrchoedd i helpu ysgolion, ysbytai a gweithleoedd i adnabod gofalwyr a deall eu hanghenion. Mae hyn yn helpu gofalwyr i gael cefnogaeth yn gynharach a theimlo eu bod yn cael eu deall yn well.

Mae Ymwybodol o Ofalwyr, prosiect a ariennir gan Lywodraeth Cymru a redir mewn partneriaeth gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru a Gofalwyr Cymru, wedi gweithio gyda gofalwyr di-dâl a gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol i helpu gofalwyr i gymryd rhan weithredol mewn penderfyniadau a gwasanaethau sy'n effeithio arnynt hwy a'r rhai y maent yn gofalu amdanynt.[4].

---

[4] O Covid i Gyd-gyflenwi: Cyflawniad ac effaith Ymwybodol o Ofalwyr 2020-24, Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru a Gofalwyr Cymru, Gorffennaf 2024 adroddiad-effaith-ymwybodol-o-ofalwyr---cymraeg---awr.pdf

### Ymateb Llais i'r ymchwiliad i wella mynediad at gymorth i ofalwyr di-dâl

Mae cynrychiolwyr y trydydd sector yn eistedd ar:

- Y Grŵp Cynghori Gweinidogol ar Ofalwyr Di-dâl
- Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

Maent yn helpu i sicrhau bod lleisiau gofalwyr yn llywio polisi a dylunio gwasanaethau.

Mae'r trydydd sector yn bartneriaid hanfodol wrth gefnogi gofalwyr di-dâl. Maent yn darparu cymorth ymarferol, yn siarad dros ofalwyr, ac yn helpu i sicrhau bod cymorth ar gael lle a phryd bynnag y mae ei angen.

Yn Llais rydym wedi gweithio gyda gofalwyr di-dâl a phartneriaid yn y trydydd sector i glywed am eu profiadau, ac rydym yn gwybod pa mor bwysig yw gwella mynediad at gymorth i ofalwyr di-dâl. Mae llawer o'r gofalwyr di-dâl rydyn ni wedi clywed ganddyn nhw wedi disgrifio eu hunain fel rhai sydd *'ar fin torri'*, 'wedi blino' , ac yn teimlo'n 'anweledig' .

Yn ein hymateb, fe wnaethom nodi'n fanylach y profiadau a rannwyd gyda ni a sut y gellid gwella mynediad at gymorth i ofalwyr di-dâl.

## Prif rwystrau sy'n wynebu gofalwyr di-dâl wrth gael mynediad at y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt; gan gynnwys unrhyw heriau penodol i ofalwyr yn seiliedig ar ffactorau fel oedran, ethnigrwydd neu ble maen nhw'n byw

**Ymwybyddiaeth a gwybodaeth:** Mae llawer o ofalwyr yn dweud wrthym nad ydyn nhw'n ymwybodol o'r gwasanaethau sydd ar gael na sut i gael mynediad atyn nhw. Mae hyn yn arbennig o wir i'r rhai mewn ardaloedd gwledig, a'r rhai sydd wedi'u hallgau’n ddigidol neu o gefndiroedd ethnig lleiafrifol.

O ganlyniad, mae gormod yn colli allan ar gymorth, seibiant neu gefnogaeth gan gyfoedion sydd ar gael iddynt.

## Ymateb Llais i'r ymchwiliad i wella mynediad at gymorth i ofalwyr di-dâl

**Straen emosiynol ac iechyd meddwl:** Mae gofalwyr yn aml yn adrodd am straen, unigedd a chwythu plwc, gyda mynediad cyfyngedig at gymorth iechyd meddwl neu seibiant.

Mae'r rhai sy'n gofalu am fwy nag un person yn ei chael hi'n arbennig o anodd blaenoriaethu eu lles eu hunain, gan arwain yn aml at waethygu iechyd corfforol. Mae'r straen hwn yn gwaethygu pan nad yw gofalwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cydnabod neu eu cynnwys yn iawn gan wasanaethau.

Pan nad yw gofalwyr yn cael eu gweld fel partneriaid mewn gofal, gall eu gadael yn teimlo eu bod yn cael eu tanbrisio a heb gefnogaeth, sy'n effeithio ymhellach ar eu lles emosiynol.

**Anhawster ariannol:** Mae gofalwyr yn dweud wrthym eu bod yn cael trafferth gyda chefnogaeth ariannol annigonol (e.e., Lwfans Gofalwr neu Gredyd Cynhwysol gydag Elfen Gofalwr), prosesau ymgeisio cymhleth, a threuliau allan o boced.

Rydym wedi clywed gan bobl sy'n cael trafferth dod â dau ben llinyn ynghyd. Maen nhw'n gorfod defnyddio eu cynilion neu gredyd i ymdopi'n ariannol, ac mae hyn yn eu gwneud nhw'n poeni am sut y byddan nhw'n ymdopi yn y tymor hir.

Mae Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru wedi tynnu sylw at y ffaith bod rhai gofalwyr yn lleihau eu bwyd, yn defnyddio banciau bwyd, neu hyd yn oed yn gwerthu tai i dalu costau hanfodol.[5].

Amcangyfrifodd adroddiad gan Gofalwyr Cymru yn 2024 fod 100,000 o ofalwyr di-dâl yng Nghymru yn byw mewn tlodi. Adroddodd Gofalwyr Cymru hefyd fod y gyfradd tlodi ar gyfer gofalwyr di-dâl draean yn uwch (30%) nag ar gyfer pobl nad ydynt yn ofalwyr.

---

[5] Gofalwyr Di-dâl yng Nghymru a Mynediad at Gymorth Ariannol a Statudol, Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru,

## Ymateb Llais i'r ymchwiliad i wella mynediad at gymorth i ofalwyr di-dâl

Mae llawer o ofalwyr o oedran gweithio wedi dweud wrthym eu bod wedi gorfod lleihau eu horiau neu na allent weithio mwyach oherwydd eu cyfrifoldebau gofalu.

Er bod cynlluniau Llywodraeth Cymru fel Cronfa Cymorth i Ofalwyr (arian grant i gefnogi gofalwyr di-dâl sy'n wynebu anawsterau o'r fath gyda thaliad o £500) wedi darparu rhywfaint o ryddhad, mae gofalwyr yn teimlo mai ateb tymor byr i broblem hirdymor yw hon.

**Heriau llywio:** Mae gofalwyr wedi dweud wrthym ei bod hi'n anodd dod o hyd i'w ffordd o gwmpas gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, ac nad yw cyfathrebu gan weithwyr proffesiynol bob amser yn glir nac yn gyson. Mae llawer wedi disgrifio teimlo eu *bod wedi cael eu 'gwthio o un piler i'r llall'* a bod yn rhaid iddyn nhw ymladd i gael y wybodaeth sydd ei hangen arnyn nhw.

Mae'r diffyg eglurder hwn yn gadael gofalwyr yn teimlo'n rhwystredig a heb gefnogaeth.

**Trafnidiaeth a hygyrchedd:** Rydym wedi clywed sut mae mynediad at gymorth yn arbennig o heriol yng nghefn gwlad Cymru.

Mae cludiant i wasanaethau yn rhwystr mawr i ofalwyr a'r bobl sy'n derbyn gofal ganddynt. Gall diffyg trafnidiaeth gyhoeddus atal gofalwyr rhag mynychu apwyntiadau neu gael mynediad at wasanaethau seibiant.

Mae llai o wasanaethau lleol ac amseroedd teithio hirach hefyd yn ei gwneud hi'n anoddach cael mynediad at gymorth.

Mae band eang a darpariaeth symudol gyfyngedig mewn rhai ardaloedd gwledig yn effeithio ar fynediad at adnoddau ar-lein a chymorth rhithwir.

Mae'r rhwystrau hyn yn cynyddu unigedd ac yn lleihau cyfleoedd ar gyfer rhwydweithiau cyfoedion ac ymgysylltu â'r gymuned.

**Rhwystrau diwylliannol ac ieithyddol:** Mae gofalwyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig wedi dweud wrthym eu bod yn wynebu heriau ychwanegol oherwydd iaith a gwahaniaethu systemig.

**Diffyg parhad mewn gofal:** Mae newidiadau mynych mewn gweithwyr cymdeithasol neu weithwyr allweddol yn amharu ar gefnogaeth a chynllunio. Mae gofalwyr yn dweud wrthym fod hyn yn effeithio arnyn nhw, gan leihau ymddiriedaeth a chynyddu straen mewn cyfnod anodd eisoes.

**Rhyddhau o'r ysbyty:** Fe wnaethon ni ddarparu tystiolaeth i ymchwiliad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar rôl awdurdodau lleol wrth gefnogi rhyddhau cleifion o'r ysbyty [6] ym mis Mawrth 2025.

Fe wnaethon ni dynnu sylw at y ffaith bod gofalwyr di-dâl yn cael eu heffeithio'n sylweddol gan brosesau rhyddhau o'r ysbyty a bylchau yn y ddarpariaeth gofal cymdeithasol. Yn aml mae'n rhaid iddyn nhw ymyrryd i ddarparu gofal heb ddigon o rybudd na chefnogaeth. Mae hyn yn creu straen, blinder, ac effeithiau iechyd eraill.

Fe wnaethon ni alw am gefnogaeth gryfach i ofalwyr yn ystod cynllunio rhyddhau, gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn chwarae rhan allweddol wrth yrru gwelliannau.

Gyda'i gilydd, mae'r rhwystrau hyn yn rhy aml yn gadael gofalwyr yn teimlo'n anweledig, wedi'u gorbwyso, a heb ddigon o gefnogaeth, gyda chanlyniadau difrifol i'w hiechyd a'u lles eu hunain yn ogystal ag i'r rhai y maent yn gofalu amdanynt.

[6] https://www.llaiswales.org/news-and-reports/reports/llais-evidence-local-llywodraeth-a-thai-committee-inquiry-role-local

## Argaeledd gofal seibiant ar draws Cymru ar hyn o bryd, gan gynnwys lefelau amrywiad ar draws rhanbarthau

**Mynediad cyfyngedig:** Mae llawer o ofalwyr yn dweud wrthym nad oes ganddyn nhw fawr ddim mynediad at seibiant, neu ddim mynediad o gwbl, gydag oedi hir pan fydd cymorth ar gael.

Rydyn ni'n gwybod bod y cynllun Seibiannau Byr[7] wedi bod o fudd i dros 30,000 o ofalwyr di-dâl[8], gan roi seibiant i bobl o'u cyfrifoldebau gofalu. Rydym wedi clywed gan ofalwyr sydd wedi dweud bod hyblygrwydd y cynllun wedi eu helpu i gymryd seibiant pryd a lle mae'n gyfleus iddyn nhw. Mae hefyd wedi helpu i'w rhoi mewn cysylltiad â chymorth arall sydd ei angen arnynt.

Ac eto mae llawer o'r gofalwyr rydyn ni wedi clywed ganddyn nhw'n dweud wrthym ni nad ydyn nhw erioed wedi cael seibiant, er gwaethaf yr angen mawr am un.

Pan fydd seibiant ar gael, weithiau mae'n anaddas. Ni all rhai gofalwyr ddefnyddio seibiant traddodiadol (e.e. gofal preswyl) ac maent eisiau dewisiadau amgen sy'n cynnwys teuluoedd neu wedi'u teilwra sy'n ystyried eu hanghenion penodol.

Mae angen opsiynau seibiant mwy hyblyg ar ofalwyr, gan gynnwys seibiannau byr a chymorth cymunedol sy'n addas iddyn nhw a'r person sy'n derbyn gofal.

**Fforddiadwyedd:** Mae cost yn rhwystr mawr i gefnogaeth i lawer o'r gofalwyr rydyn ni'n clywed ganddyn nhw. Ni all llawer o ofalwyr fforddio seibiant, ac mae gormod yn colli allan ar y seibiannau sydd eu hangen arnynt.

---

[7] Cynllun Seibiannau Byr Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru

[8] Gwneud Gwahaniaeth: Effaith y Cynllun Seibiannau Byr 2023-2025, Seibiannau Byr Cymru https://issuu.com/carerstrustwales/docs/short_breaks_scheme_-_making_a_difference

**Cymorth gan wirfoddolwyr a chyfoedion:** Hoffai gofalwyr weld mwy o gynlluniau seibiant dan arweiniad y gymuned a rhwydweithiau cymorth gan gymheiriaid, a all ddarparu dewisiadau amgen hyblyg, llai costus i leihau unigedd.

## I ba raddau y mae'r galw am wasanaethau cymorth i ofalwyr yn cael ei asesu a'i ymdrin, a lefelau presennol o anghenion heb eu diwallu

### Asesiadau gofalwyr

Er bod polisi cenedlaethol yn cydnabod pwysigrwydd asesu a chefnogi gofalwyr, mae'r realiti ar lawr gwlad yn anghyson.

Mae llawer o ofalwyr yn dweud wrthym eu bod yn wynebu arosiadau hir am asesiadau, tra nad yw eraill yn cael cynnig un o gwbl.

Lle mae asesiadau'n digwydd, mae gofalwyr yn aml yn eu disgrifio fel rhai arwynebol, gan fethu â chofnodi realiti eu rôl, y straen sydd arnynt, na'u hanghenion unigol.

Hyd yn oed pan fydd asesiadau wedi'u cwblhau, mae ein gwasanaeth eiriolaeth cwynion wedi clywed gan ofalwyr sydd wedi derbyn ychydig iawn o ddilyniant neu ddim o gwbl o ran seibiant, offer, na chymorth ariannol.

Mae'r diffyg darpariaeth hwn yn tanseilio ymddiriedaeth yn y system ac yn gadael llawer o ofalwyr heb gymorth ystyrlon.

### Darpariaeth anghyson a chynhwysedd cyfyngedig

Nid yw'r galw am gymorth yn cael ei ymdrin yn effeithiol mewn rhai ardaloedd o Gymru. Rydym wedi clywed sut mae'r ddarpariaeth yn amrywio'n sylweddol rhwng rhanbarthau, gydag ardaloedd gwledig yn arbennig o danwasanaethedig. Mae prinder gweithlu mewn

gwasanaethau gwaith cymdeithasol a gofal yn cyfyngu ymhellach ar y cynhwysedd i asesu anghenion a darparu cymorth. Mae cydnabyddiaeth hefyd yn parhau i fod yn her: nid yw rhai gofalwyr, yn enwedig gofalwyr rhiant a gofalwyr ifanc, yn adnabod eu hunain fel gofalwyr ac felly'n colli allan ar asesiadau a gwasanaethau yn gyfan gwbl.

### Heriau gyda thaliadau uniongyrchol

Bwriad taliadau uniongyrchol yw rhoi mwy o ddewis a rheolaeth i ofalwyr di-dâl dros y gefnogaeth maen nhw'n ei derbyn. Mae llawer o ofalwyr wedi dweud wrthym fod y system yn anodd ei deall a'i defnyddio.

Nid yw rhai gofalwyr hyd yn oed yn ymwybodol bod taliadau uniongyrchol yn opsiwn. Mae eraill yn gweld y broses yn ddryslyd neu'n llethol. Mae hyn yn aml yn wir i ofalwyr sy'n wynebu rhwystrau iaith neu nad oes ganddynt fynediad hawdd at wybodaeth ddigidol.

Mae gofalwyr sy'n cael taliadau uniongyrchol yn dweud wrthym fod angen mwy o gefnogaeth arnyn nhw i'w rheoli, maen nhw'n poeni am gyflogi pobl a dilyn y rheolau.

Mae rhai wedi dweud wrthym y gall y rheolau ynghylch sut y gallwch ddefnyddio taliadau uniongyrchol ei gwneud hi'n anodd iddyn nhw eu defnyddio mewn ffyrdd sy'n gweithio iddyn nhw.

Er mwyn i daliadau uniongyrchol weithio'n well i ofalwyr, mae angen gwybodaeth gliriach, prosesau symlach, cefnogaeth barhaus a mwy o hyblygrwydd arnynt. Mae angen i ofalwyr allu defnyddio taliadau uniongyrchol mewn ffordd sy'n gweithio iddyn nhw a'u sefyllfa.

### Anghenion parhaus heb eu diwallu

Mae'r canlyniadau'n glir. Mae angen heb ei ddiwallu ymhlith gofalwyr yn eang ac yn barhaus.

Mae gofalwyr yn dweud wrthym dro ar ôl tro am ddiffyg cefnogaeth emosiynol a meddyliol, er gwaethaf lefelau uchel o straen, unigedd a chwythu plwc.

Mae eu profiadau'n dangos bod mynediad at seibiant yn gyfyngedig ac yn anhyblyg, gan adael llawer heb y seibiannau sydd eu hangen arnyn nhw'n daer.

Mae pwysau ariannol hefyd yn broblem ddifrifol, gyda gofalwyr yn aml yn anymwybodol o'u hawliau neu'n cael trafferth dod o hyd i'w ffordd o amgylch systemau cymhleth.

### Rhwystrau ychwanegol ar gyfer grwpiau penodol

Mae rhai grwpiau'n wynebu rhwystrau hyd yn oed yn fwy:

**Gofalwyr ifanc:** rydym yn clywed sut maen nhw'n aml yn ei chael hi'n anodd cydbwyso eu cyfrifoldebau ag addysg, bywyd cymdeithasol a datblygiad personol, tra hefyd yn profi iechyd meddwl gwael ac ynysu cymdeithasol.

Er bod gan bob ardal yng Nghymru wasanaeth gofalwyr ifanc, mae ymwybyddiaeth a mynediad yn anghyson, ac nid yw offer fel y Cerdyn Adnabod Gofalwyr Ifanc yn cael eu defnyddio'n eang ym mhobman eto.

**Gofalwyr o gymunedau ethnig lleiafrifol:** maent yn wynebu heriau ychwanegol. Maent yn llai tebygol o fod yn ymwybodol o wasanaethau cymorth neu o gael mynediad atynt, ac mae llawer yn teimlo bod diffyg sensitifrwydd diwylliannol yn y ddarpariaeth, gan ei gwneud yn llai croesawgar neu ddefnyddiol.

Nid yw eu lleisiau bob amser yn cael eu cynrychioli wrth ddylunio a darparu gwasanaethau, ac mae angen ymgysylltiad cryfach trwy ddulliau dibynadwy dan arweiniad y gymuned.

Mae bylchau sylweddol yn y data hefyd yn parhau, gan ei gwneud hi'n anoddach datblygu ymatebion polisi effeithiol sy'n gweithio i bawb.

**Rhieni sy'n gofalu:** Mae rhieni sy'n ofalwyr wedi dweud wrthym y gall ceisio mynd trwy systemau iechyd, addysg a gofal cymdeithasol fod yn arbennig o anodd. Mae llawer wedi blino o ofynion cyson gofalu ac yn

teimlo nad oes ganddyn nhw'r amser, yr egni na'r eglurder i fynd ar ôl cefnogaeth neu ddeall prosesau cymhleth.

Rydym wedi clywed gan rieni sy'n gofalu am blant sy'n disgrifio teimlo'n llethu gan waith papur, yn ddryslyd gan gyngor anghyson, ac yn rhwystredig o orfod ailadrodd eu stori i nifer o weithwyr proffesiynol.

Mae rhai'n dweud eu bod nhw'n teimlo eu bod nhw'n cael eu barnu neu eu diystyru pan maen nhw'n gofyn am help, sy'n ychwanegu at y straen emosiynol. Mae eraill wedi rhannu pryderon y gallai eu plentyn gael ei symud os ydynt yn rhannu eu bod angen cymorth gyda'u cyfrifoldebau gofalu gyda'r gwasanaethau cymdeithasol.

**Bwlch polisi a realiti**

Gyda'i gilydd, mae'r profiadau hyn yn tynnu sylw at fwlch clir rhwng uchelgais polisi a'r realiti i ofalwyr di-dâl.

Mae asesiadau'n rhy aml yn cael eu gohirio, yn anghyson, neu'n arwynebol; nid yw'r galw'n cael sylw digonol; ac mae meysydd mawr o angen heb ei ddiwallu yn parhau, yn enwedig o ran iechyd meddwl, seibiant, a chymorth ariannol.

Mae'r sefyllfa hyd yn oed yn fwy difrifol i ofalwyr ifanc, gofalwyr mewn cymunedau ethnig lleiafrifol, a'r rhai yng nghefn gwlad Cymru, sy'n wynebu rhwystrau ychwanegol i gydnabyddiaeth a mynediad.

## Rôl Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wrth ddarparu cefnogaeth i ofalwyr di-dâl, ac effeithiolrwydd arferion comisiynu cyfredol ar gyfer gwasanaethau

Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (BPR) yn chwarae rhan ganolog wrth lunio cefnogaeth i ofalwyr di-dâl ledled Cymru. Maent yn gyfrifol am gynhyrchu Asesiadau Anghenion y Boblogaeth (AAB) i nodi anghenion a bylchau lleol, gan dynnu ar ddata a phrofiad byw.

Yna dylai'r asesiadau hyn lywio cynllunio a chomisiynu gwasanaethau ar draws rhanbarthau. Mae'r Asesiadau Anghenion Poblogaeth nesaf wedi'u hamserlennu i gael eu cwblhau ym mis Ebrill 2027, gan ei wneud yn gyfle allweddol i gryfhau cefnogaeth i ofalwyr.

Er mwyn i arferion comisiynu gwasanaethau fod yn effeithiol, rhaid iddynt gynnwys y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau hynny. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y gwasanaeth yn gwneud yr hyn y dylai ei wneud.

**Cyd-gynhyrchu ar waith**

Mae cyd-gynhyrchu yn golygu gweithwyr proffesiynol a phobl sydd â phrofiad bywydol yn gweithio mewn partneriaeth gyfartal i ddylunio, darparu ac adolygu gwasanaethau.

Er bod cyd-gynhyrchu yn ddyletswydd statudol, mae sut mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ledled Cymru yn ei wneud yn anghyson.

Canfuwyd Gofalwyr Cymru, er bod pob un o'r 22 awdurdod lleol a sawl Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn ymwneud â chyd-gynhyrchu, bod dyfnder ac ansawdd yr ymgysylltu yn amrywio llawer.

Mae hyn yn adlewyrchu'r hyn a glywn yn uniongyrchol gan ofalwyr di-dâl.

Yn aml, mae gofalwyr di-dâl yn dweud wrthym mai dim ond eu barn y gofynnir iddynt ei rhoi, yn hytrach na bod yn rhan lawn o lunio penderfyniadau.

Hoffem weld mwy o benderfyniadau ar y cyd ynghylch dylunio a datblygu gwasanaethau, gyda gofalwyr yn cael eu cynnwys yn gynharach yn y trafodaethau.

Mae hyn hefyd yn wir o ran cynlluniau gofal unigol, y mae gofalwyr yn aml yn dweud wrthym eu bod yn teimlo eu bod wedi'u heithrio ohonynt.

Mae angen gwell cefnogaeth gan systemau i wneud i hyn ddigwydd.

Mae cynrychiolwyr uwch arweinyddiaeth o dimau rhanbarthol Llais yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol i glywed pa gamau maen nhw'n eu cymryd i gynnwys pobl yn eu gwaith.

### Cyfleoedd i gryfhau comisiynu

Rydym yn cytuno ag argymhellion Adroddiad Cyflwr Gofalu 2024 y dylai awdurdodau lleol weithio drwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol i:

- Adeiladu ar Asesiadau o Anghenion y Boblogaeth ar lefel ranbarthol.
- Mapio anghenion gofalwyr yn gyson ar draws ardaloedd awdurdodau lleol.
- Defnyddio'r mapio hwn i arwain cyllidebau a sicrhau bod dyletswyddau statudol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cael eu cyflawni.

Mae potensial strategol Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i gydlynu a safoni cefnogaeth i ofalwyr, yn enwedig wrth gynllunio a chomisiynu, yn glir.

Fodd bynnag, mae gwireddu'r potensial hwn yn dibynnu ar sicrhau bod lleisiau gofalwyr yn cael eu clywed mewn prosesau gwneud penderfyniadau a bod comisiynu yn trosi'n gefnogaeth gyson o ansawdd uchel ledled Cymru.

## Camau gweithredu sydd eu hangen i wella gweithrediad darpariaethau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar gyfer gofalwyr di-dâl (gan gynnwys Asesiadau Gofalwyr a chynlluniau cymorth).

Rydym wedi bod yn ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ynghylch datblygu'r Strategaeth Gofalwyr Di-dâl nesaf ac wedi rhannu'r hyn rydym wedi bod yn ei glywed gyda nhw. Byddwn yn parhau i rannu’r hyn y mae gofalwyr di-dâl yn ei ddweud wrthym am lywio camau gweithredu i wella gweithrediad darpariaethau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

## Ymateb Llais i'r ymchwiliad i wella mynediad at gymorth i ofalwyr di-dâl

Mae gofalwyr di-dâl yn chwarae rhan hanfodol yn ein cymunedau, ond mae llawer yn teimlo eu bod yn cael eu hanwybyddu a heb gefnogaeth. Er mwyn sicrhau bod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gweithio fel y dylai i ofalwyr, mae angen inni gymryd camau clir ac ymarferol.

I bontio'r bwlch rhwng polisi ac ymarfer, mae angen y camau gweithredu canlynol:

### 1. Asesiadau gofalwyr mwy effeithiol

Mae angen asesiadau ar ofalwyr sy'n adlewyrchu'n wirioneddol yr hyn maen nhw'n mynd drwyddo, nid dim ond ymarferion ticio blychau. Dylai'r rhain ddigwydd yn gyflym, bod yn bersonol, ac arwain at gefnogaeth wirioneddol fel seibiannau, offer, a/neu gymorth ariannol.

Dylai pawb gael mynediad teg at asesiadau, ni waeth ble maen nhw'n byw, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig lle gall gwasanaethau fod yn anoddach eu cyrraedd.

### 2. Rhoi mwy o gymorth ariannol ac ymarferol i ofalwyr

Yn aml, mae gofalu yn dod â straen ariannol. Mae angen gwell cefnogaeth ariannol ar ofalwyr, gan gynnwys newidiadau i Lwfans Gofalwr a'r opsiwn ar gyfer absenoldeb â thâl.

Mae angen mwy o gyllid ar gyfer gofal seibiant a grantiau brys, a dylai'r broses ar gyfer gwneud cais fod yn symlach ac yn haws i'w deall.

### 3. Codi ymwybyddiaeth a gwneud cymorth yn haws i gael mynediad iddo

Nid yw llawer o ofalwyr yn gwybod pa gymorth sydd ar gael na sut i'w gael.

## Ymateb Llais i'r ymchwiliad i wella mynediad at gymorth i ofalwyr di-dâl

Mae angen ymgyrchoedd wedi'u targedu i gyrraedd gofalwyr mewn ardaloedd gwledig, y rhai heb fynediad i'r rhyngrwyd, gofalwyr ifanc a gofalwyr o gymunedau lleiafrifol.

Dylid hyfforddi staff rheng flaen i adnabod a chefnogi gofalwyr, a dylid defnyddio offer fel y Cerdyn Adnabod Gofalwyr Ifanc yn gyson ledled Cymru.

### 4. Gweithio gyda gofalwyr i ddylunio gwasanaethau

Dylai gofalwyr fod yn rhan o lunio'r gwasanaethau maen nhw'n eu defnyddio, nid dim ond gofyn am adborth.

Dylai gweithwyr proffesiynol weithio mewn partneriaeth gyfartal â gofalwyr i gynllunio a gwella cefnogaeth.

Mae gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol rôl allweddol i'w chwarae wrth sicrhau bod hyn yn digwydd,  a gall offer fel pecyn cymorth cyd-gynhyrchu Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru helpu.

### 5. Deall anghenion gofalwyr yn well

Mae angen data gwell arnom i ddeall beth sydd ei angen mewn gwirionedd ar ofalwyr, yn enwedig gofalwyr ifanc a'r rhai o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig. Rydym yn ymwybodol bod Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru yn cynnal astudiaeth ar anghenion a phrofiadau gofalwyr Duon a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru.

Rhaid i'r Asesiad Anghenion Poblogaeth nesaf yn 2027 adlewyrchu profiadau bywyd gofalwyr a thywys sut mae gwasanaethau'n cael eu cynllunio a'u hariannu.

### 6. Gwneud cefnogaeth yn gyson ledled Cymru

Ni ddylai cefnogaeth i ofalwyr ddibynnu ar ble maen nhw'n byw.

Mae'n bwysig bod awdurdodau lleol yn gwneud eu perfformiad yn erbyn Deddf 2014 yn gliriach ac yn fwy hygyrch i'r cyhoedd. Hoffem eu gweld

yn hyrwyddo ac yn cyhoeddi data perfformiad cymharol yn weithredol mewn ffordd glir a hawdd ei defnyddio.

Dylent fod yn dysgu oddi wrth ei gilydd y ffordd orau o gyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol, gan rannu'n rheolaidd yr hyn sy'n gweithio'n dda.

Dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol helpu i gydlynu ymdrechion fel bod gofalwyr ym mhobman yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt.

**Medi 2025**